# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Hydref 2004
# i'w hateb ar 3 Tachwedd 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid*

**1. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu canlyniadau posibl lleihau Grant Bloc Cymru £1/2 biliwn i'w chynlluniau gwariant yn ystod 2005-08. (OAQ38915)

**2. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ystyriaethau a roddwyd i gynyddu cyllideb y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. (OAQ38925)

**3. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. (OAQ38897)

**4. Sandy Mewies (Delyn):** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i anghenion y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wrth lunio cyllideb ddrafft y Cynulliad. (OAQ38911)

**5. Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i gynyddu'r gyllideb Cymorth i Fyfyrwyr wrth ddyrannu arian i'r Portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes yng nghyllideb eleni. (OAQ38919)

**6. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Wrth lunio cyllideb eleni, pa sylwadau y derbyniodd y Gweinidog oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ynghylch cyllid cynyddol ar gyfer ei Bortffolio. (OAQ38904)

**7. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid cyffredinol y mae hi wedi'i ddyrannu i'r Portffolio Addysg yng nghyllideb y Cynulliad ar gyfer y tair blynedd nesaf. (OAQ38893)

**8. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Wrth lunio cyllideb eleni, pa sylwadau y derbyniodd y Gweinidog oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch cyllid cynyddol ar gyfer ei Phortffolio. (OAQ38903)

**9. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a ystyriwyd ganddi wrth lunio'r gyllideb ynghylch pa linell wariant o fewn y gyllideb a fydd yn derbyn yr un swm o arian yn 2005/06 ag a wnaeth yn 2004/05. (OAQ38901)

**10. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn

gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y cynnydd canrannol yn ei chyllideb o'i gymharu â'r hyn a ddyrannwyd ar gyfer y portffolio Addysg yn Lloegr. (OAQ38913)

**11. Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi derbyn cais am arian ychwanegol a thaliadau un-tro gan y Gweinidog dros Ddiwylliant er mwyn sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru. (OAQ38902)

**12. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. (OAQ38921)

**13. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth y gyllideb i fynd i'r afael â chyfrifoldeb trawsbynciol Llywodraeth y Cynulliad. (OAQ38894)

**14. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y gyllideb ddrafft yn cyflawni amcanion Cymru: Gwlad Well. (OAQ38888)

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y gyllideb ddrafft yn cyflwyno'r 10 addewid ym maniffesto'r blaid lywodraethu i bobl Cymru. (OAQ38914)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y berthynas rhwng targedau a nawdd ar gyfer ailgylchu yng Nghymru. (OAQ38866)

**2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y llygredd yn nyfroedd arfordirol Cymru. (OAQ38826)

**3. David Melding (Canol De Cymru):** Pa fesurau sydd wedi'u cymryd i annog a datblygu dulliau eco-gyfeillgar, fel claddu mewn coetir neu gladdu yn y môr, o ymdrin â gweddillion. (OAQ38876)

**4. Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A all y Gweinidog ddisgrifio'i gynlluniau i wneud defnyddwyr yn ymwybodol o ddatblygu cynaliadwy. (OAQ38851)

**5. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi cynnydd mewn cynlluniau ailgylchu ledled Cymru. (OAQ38855)

**6. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr**): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y diwydiant llaeth yng Nghymru. (OAQ38844) **W**

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro bod awdurdodau cynllunio lleol yn cydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddir gan y

Cynulliad. (OAQ38832)

**8. Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar newidiadau i'r CAP. (OAQ38843) **W**

**9. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amddiffynfeydd rhag llifogydd yng Nghymru. (OAQ38878)

**10. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar basportau ceffylau yng Nghymru. (OAQ38873)

**11. Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'n eu cymryd i leihau lefelau tirlenwi yng Nghymru. (OAQ38881)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dreulio anerobig i drin gwastraff. (OAQ38825)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'n eu cymryd i godi lefelau ailgylchu yng Nghymru. (OAQ38863)

**14. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio cerbydau tir agored ar hawliau tramwy. (OAQ38886)

**15. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddeddfwriaeth ar berthi uchel yng Nghymru. (OAQ38882)